

Cyngor Cymuned Llanllyfni

Cofnodion cyfarfod misol Cyngor Cymuned Llanllyfni, Nos Fawrth y **13eg o Fawrth 2012.**

Yn bresennol oedd y Cyngorwyr Gwyndaf Roberts (Cadair), Hefina MW Roberts – Llanllyfni; Barry Bracegirdle, Elwyn Jones-Griffith, Ifan Glyn Jones – Penygroes; Dafydd Glyn Owen, Harry Wyn Owen, Sharon Wynne Jones – Talysarn, T Les Jones – Nantlle; Eurig Wyn Evans – Nebo.

Gwahoddwyd Mark Balaam o Gyngor Gwynedd, ac Owain Wyn o'r cwmni Burum i'r cyfarfod. Trafodwyd Prosiect Tir Trem y Wyddfa, prosiect a fydd yn gweld cydweithio gyda'r gymuned, ac a ariannwyd gan grant Mon Menai. Y bwriad yn y pen draw yw gwella darpariaeth y lon feiciau. Mae rhan o'r gwaith ar y tir eisioes wedi ei gychwyn gan blant ysgol Dyffryn Nantlle a thrigolion, a bydd y maes parcio dros y ffordd i Poveys i'w gynnwys yn y cynllun. Roedd y swyddogion wedi ymgynghori a ieuencid Iwth Pen er mwyn derbyn syniadau ieuencid yr ardal, gyda'r bwriad o gael syniadau mwy pendant ar ol y Pasg. Mae dwy elfen i'r brosiect, sef yn gyntaf, Trem y Wyddfa, a'r Maes Parcio yn ail. Derbyniwyd cais i gael aelod o'r Cyngor Cymuned ar y grwp llywrio.

Cynllunio

Derbyniwyd y ceisiadau isod ar gyfer sylwadau'r Cyngor.

- * Co-op Penygroes, arwyddion wedi eu goleuo. Roedd y Cyngor yn cymeradwyo.
- * Bryn Neuadd, Ffordd Clynnog, Penygroes – porth newydd. Eto, y Cyngor yn cymeradwyo.

Gohebiaeth

Cyngor Gwynedd

*Meinciau Cwting. Roedd y fainc yn parhau ym mhen pellaf y cae. Gofynwyd i'r Clerc gysylltu eto i ofyn i Gyngor Gwynedd fynd a'r fainc oddi yno.

*Allt Goch. Derbyniwyd adroddiad y byddai'r Cyngor am asesu'r sefyllfa parthed gor-yrru.

*Baw cwn Cwting. Cafwyd cadarnhad bod Cyngor Gwynedd am wagio'r bin yn amlach. Roedd y Cyngor yn gresynu bod perchnogion yn gadael i'w cwn faeddu yn y cae.

*Gofynwyd am gynrychiolaeth y Cyngor Cymuned mewn cyfarfod a drefnwyd parthed cais i adolygu trwydded eiddo y Fictoria, Penygroes.

Arall

*Derbyniwyd cais gan Nia Parry i ddod i gyfarfod i roi adborth am y Ffair Nadolig a gynhaliwyd y llynedd. Penderfynwyd trefnu cyfarfod arbennig, a chysylltu efo Nia iddi gynnig dyddiadau.

*Penderfynwyd y byddai'r Cyngor Cymuned yn archebu fflagiau 'bunting' fel cyfraniad i'r Dyffryn ar achlysur Eisteddfod yr Urdd.

Adroddiadau Pentrefi.

Penygroes *Roedd y Cyngor yn parhau i dderbyn cwynion am or-yrru ar ffordd Allt Goch. Byddwn yn adrodd y gwyn i Gyngor Gwynedd, a gofyn iddynt edrych ar gael llefydd pasio.

*Derbyniwyd cwyn fod baw cwn Ffordd Llwyndu yn cael ei bigo i fyny a'u luchio i dir yr ysgol.

*Cafwyd cwyn am ysbwriel yn cael ei daflu o'r arosfan bws ar Heol Buddyg i dir Capel y Groes. Byddwn yn gwneud cais i Gyngor Gwynedd am fin wrth yr arosfan bws.

*Byddwn yn cysylltu gyda Gyngor Gwynedd am geir yn ymwithio drwy folardiau gyferbyn a Bwthyn Arfon a Bron Heulog ar hyd Lon Las, heibio cae Nantlle Vale (llwybr 29).

*Adroddwyd am tipio slei bach tu ol i'r hen 'Church Hall'.

Talysarn Bin baw cwn wedi mynd o Glodda Glai – byddwn yn holi Cyngor Gwynedd am hyn.

Llanllyfni Tipio anghyfreithlon dros y ffordd i dwll chwarel Tyddyn Agnes.

Derbyniwyd cais gan Gymdeithas Hanes Dyffryn Nantlle, yn gofyn caniatad i wneud rhywbeth i wella cyflwr cofeb y 7 dyn a fladdwyd yn y ddamwain fawr yn Dorothea, a threfnu grwp ar y cyd i drafod. Mae'r gofeb ym mynwent MacPelah, Penygroes. Roedd y Cyngor yn fodlon.

Rhannwyd goleuadau beics i blant ysgolion cynradd y Dyffryn. Mae'r Cyngor yn ddiolchgar iawn i PC Alex Higgs, a PCSO Julie Holland am drefnu'r cwbl.